

ADRODDIAD BLYNYDDOL
CYNGOR CYMUNED HARLECH
2025/2026

GAIR GAN Y CADEIRYDD – Y CYNG. CHRISTOPHER BRAITHWAITE

Mae'n fraint cyflwyno pedwerydd Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Harlech ar gyfer 2025/2026. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un o gynnydd, myfyrio, a pharhad ymroddiad i les ein cymuned. Mae ein gweledigaeth ar y cyd yn parhau i fod yn greiddiol i bopeth a wnawn: sicrhau bod Harlech yn le diogel, croesawgar, a bywiog i bobl o bob oed tref lle mae trigolion yn teimlo eu cefnogi a'u cysylltu, ac lle mae ymwelwyr yn profi cymeriad unigryw sy'n gwneud ein cymuned yn arbennig iawn.

Dros y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni gwaith sy'n cefnogi bywyd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol Harlech. Rydym wedi cynnal mannau cyhoeddus hanfodol, cefnogi grwpiau a sefydliadau lleol, ac wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau ar gael i drigolion ac ymwelwyr. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i fuddsoddi mewn digwyddiadau a mentrau cymunedol sy'n cryfhau balchder lleol ac yn dod â phobl ynghyd.

Mae hon hefyd wedi bod yn flwyddyn o newid. Mae cau pwll nofio Harlech wedi gofyn am ystyriaeth ofalus a thrafodaethau parhaus am ddyfodol y safle. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau sydd wedi cymryd rhan weithgar yn y sgwrs hon ac sydd yn parhau i weithio tuag at ganlyniad positif i'r gymuned. Yr un pryd, rydym wedi gweld ymgysylltiad cryf gan grwpiau lleol, ysgolion, a gwirfoddolwyr, sydd eu cyfraniadau yn parhau i fod yn hanfodol i fywyd y dref. Hoffwn ddiolch i'r holl Gynghorwyr am eu hymroddiad a'u gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys y rhai a ymunodd neu a ail-ymunodd â'r Cyngor, a chydabod cyfraniad y Cyng. Rhian Corps, a ymddiswyddodd yn ystod y flwyddyn. Hefyd, estynnaf fy nioch diffuant i'n Clerc, Annwen Hughes, y mae ei phroffesiynoldeb a'i hymrwymiad yn sail i redeg llyfn gwaith y Cyngor. Mae'r flwyddyn hon hefyd yn nodi trawsnewidiad personol. Oherwydd cynnydd mewn ymrwymadau y tu allan i'r Cyngor, byddaf yn sefyll i lawr fel Cadeirydd ar y diwedd y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rwyf am bwysleisio fy mod yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i Harlech ac yn

mynd i barhau i wasanaethu fel Cynghorydd. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gymryd rhan yn weithredol yn gwaith y Cyngor a chefnogi'r Cadeirydd newydd wrth i ni barhau i symud ein cymuned ymlaen. Wrth i ni edrych ymlaen, mae ein blaenoriaethau yn aros yn glir: diogelu ac ehangu nodweddion Harlech, cefnogi lles ein trigolion, a gweithio'n gydweithredol gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol i sicrhau dyfodol cadarnhaol a chynaliadwy i'n tref. Bu'n anrhydedd gwasanaethu fel Cadeirydd, ac rwy'n dal i fod yn falch o barhau i wasanaethu pobl Harlech.

Aelodaeth

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd)

Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd)

Cyng. Reg Chapman

Cyng. Edwina Evans

Cyng. Giles Bentham – (ethol yn nol I'r Cyngor mis Tachwedd 2025)

Cyng. Rhian Corps – (ymddiswyddo mis Medi 2025)

Cyng. Ceri Griffiths

Cyng. Gordon Howie

Cyng. Martin Hughes

Cyng. Tegid John – (ethol yn nol I'r Cyngor mis Ebrill 2025)

Cyng. Wendy Williams

Cyng. Simon Turner

Cyng. Mark Lewis

Mae dau Gynghorydd yn cynrychioli'r ardal ar Gyngor Gwynedd sef y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen.

Yn anffodus fe ymddiswyddodd y Cynghorydd Rhian Corps o'r Cyngor Cymuned yn mis Medi a fe gafodd y Cyng. Giles Bentham ei ethol yn nol I'r Cyngor. Fe gafodd y Cyng. Tegid John ei ethol yn nol I'r Cyngor yn mis Ebrill 2025

Staff

Mae gan y Cyngor un aelod o staff, Annwen Hughes, sy'n Clerc a Swyddog Cyllid. Mae hi'n gweithio'n rhan-amser. Gellir cysylltu â'r Clerc drwy e-bost Enquiriescyngorharlech@outlook.com, llythyr I Crafnant, Llanbedr, Gwynedd LL45 2PH neu ffonio 01341241613/07919582741.

Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor yn fisol ag eithro mis Awst yn yr Hen Lyfrgell yn y dref ar nos Llun cyntaf pob mis heblaw mis Ebrill a mis Mai eleni pan gynhelir y cyfarfod ar yr ail ddydd Llun oherwydd gŵyl y banc.

Safle We

Mae y Cyngor wedi adeiladu gwefan newydd a fydd yn cynnwys rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion cyfarfodydd, polisiâu a newyddion y Cyngor ar safle We'r Cyngor: www.cyngorcymunedharlech.co.uk

AELODAETH ALLANOL

Mae'r Cyngor Cymuned yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff cynrychioliadol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Mae'r Cyngor Cymuned yn ethol Aelodau i gyrff allanol eraill, sef Pwyllgor yr Hen Lyfrgell, Pwyllgor y Neuadd Goffa a Chorff Llywodraethol Ysgol Tan y Castell.

Atebolrwydd

Mae'r Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu cod ymddygiad aelodau a chedwir cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae gofyn i'r Cyngorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt am eitemau i'w trafod ar gychwyn bob cyfarfod a bydd y rhain yn cael ei nodi yn y cofnodion.

Mae cyfrifon y Cyngor Cymuned yn cael eu harchwilio gan archwilydd mewnol ac allanol yn flynyddol. Mae'r archwiliad mewnol yn cael ei gynnal gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd, a'r Archwiliad Allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

CYLLID A GWARIANT

Mae'r Cyngor Cymuned yn gosod cyllideb yn flynyddol ac yn monitro gwariant yn erbyn y gyllideb drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy dderbyn adroddiad rheolaidd gan y Clerc. Prif ffynhonnell incwm y Cyngor Cymuned yw'r praesept sy'n cael ei osod yn flynyddol a'i gyflwyno i Gyngor Gwynedd ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r praesept yn cael ei gasglu ar ran y Cyngor Cymuned gan Gyngor Gwynedd a dyma'r unig ffynhonnell refeniw treth sydd ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned. Mae'r broses o benderfynu ar lefel y praesept yn cynnwys paratoi cyllideb ddrafft ar sail sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned drwy ystyried y costau tebygol, cynlluniau ar gyfer prosiectau, pennu swm ar gyfer cyfraniadau - o fewn y canllawiau a gyhoeddir yn flynyddol - ac unrhyw faterion ariannol eraill. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r gwarchodfeydd a ddelir gan y Cyngor Cymuned i sicrhau bod praesept priodol yn cael ei osod. Cafodd lefel y praesept ei chodi i £85,000 ar gyfer 2025/26. Yn ogystal, derbyniodd y Cyngor Cymuned £6,685.56 o'r Cynllun Parcio 10% gan Gyngor Gwynedd a ymunodd ag ef rai blynyddoedd yn ôl.

Incwm a Gwariant 2025/26

	Incwm £	Gwariant £
Llogau Banc	1,696.53	
Precept	85,000.00	
Incwm y Fynwent	2,931.50	
Rhent Rhandiroedd	445.00	
Ad-daliad incwm meusydd parcio	6,685.56	
Ad-daliad torri gwair llwybrau	990.35	
Ad-daliad T.A.W	3,580.87	
Ad-daliad archwiliad tir Penygraig	1,226.00	
Grant Gardd Blodau Gwyllt	1,308.32	
Grant Magnox	520.00	
Grant Gwynedd Ni	6,960.52	

Llwybrau	2,542.00
Torri Gwair Cae Chwarae	2,196.00
Torri Gwair y Fynwent	2,185.00
Gwariant yn y Fynwent	1,530.00
Torri coed ger Llwybr Natur	2,875.00
Archwilio coeden ger Llwybr Natur	300.00
Archwiliad Tir Penygraig	4,171.20
Gwaredu clymog japan	350.00
Goleuadau Nadolig	21,238.61
Nwyddau Nadolig	499.00
Nwyddau toiledau	139.59
Glanhawr toiledau	1,815.91
Dwr Cymru (toiledau)	707.20
Partneriaeth toiledau	12,000.00
Dwr Cymru (Rhandiroedd)	77.15
Llwybr rhandiroedd a torri gwair	870.00
Tynnu Ffens	540.00
Pwyllgor Neuadd Goffa	2,000.00
Pwyllgor Hen Lyfrgell	2,000.00
Cylch Meithrin Harlech	2,000.00
Cyfeillion Ysgol Tanycastell	3,000.00
CFFI Ardudwy	500.00
CFFI Meirionnydd	500.00
Teulu Castell	500.00
Cyfraniad i HAL	1,700.00
Cyfraniad I badminton ieuenctid	1,560.00
Benthyciad i cae chwarae Brenin Sior	1,000.00
Cyflog y Clerc	1,764.00
Costau y Clerc	664.55
Costau Swyddfa	500.00
Gliniadur Newydd I'r Clerc	499.00
Trwydded Microsoft	104.99
Trwydded zoom	155.88

Treth ar gyflog y Clerc	439.80
P.A.Y.E ar lein	228.00
Cyfieithydd	1,105.00
Treth Cwrt Tennis	96.56
Cynnal a chadw cwrt tennis	168.00
Cynnal y Wefan	2,360.00
Costau Cyfreithiol Tir Penygraig	2,156.14
Cyrsiau hyfforddiant	290.00
Lwfans Cynghorydd	468.00
Gardd Gymunedol Blodau Gwylt	1,077.20
Insiwran y Cyngor	2,452.45
Archwiliad parciau chwarae	348.00
Gwagio Biniau cae chwarae	960.86
Cytundeb gwaredu pla	200.00
Archwiliad Allanol 22/23 a 23/24	3,755.00
Archwiliad Mewnol 2024/25	408.00
Tal aelodaeth Un Llais Cymru	370.00
Tal aelodaeth SLCC	85.00
Pad Defib	154.80
Amrywiol	22.20
Costau Banc	42.00
	£111,344.65
	£97,856.71

CYLLIDEB

Presept y Cyngor yw £85,000 a mae yn cael ei glustnodi fel a ganlyn:-

Yn cyfranu £12,000 i Gyngor Gwynedd at gadw'r toiledau cyhoeddus yn agored (rhai yn maes parcio Bron y Graig Isaf a rhai ger tafarn y Queens a rhai yn maes parcio Min y Don) a mae y rhain I gyd yn agored trwy'r flwyddyn

Ers y 1af o Awst 2024 mae Hamdden Harlech ac Ardudwy wedi dod I ben ag felly mae hyn yn golygu bod y pwll nofio hefyd wedi cau. Bellach ers ddechrau y flwyddyn ariannol hon nid yw y Cyngor yn cyfranu yn ariannol bob mis ond fel bod angen. Mae rhai o Gyfarwyddwyr Bwrdd HAL sydd hefyd yn Aelodau o'r Cyngor Cymuned mewn trafodaethau gyda gwahanol asiantaethau ynglyn a dyfodol y safle.

Erbyn hyn mae y Cyngor yn talu I gyfieithydd ddod I gyfarfodydd y Cyngor bob mis, a wedi gwario £1,105 yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi gwario £846.79 at gynnal y toiledau cyhoeddus ger y Neuadd Goffa, ag hefyd mae y Cyngor wedi talu £1,815.91 I ofalwr am lanhau y toiledau hyn yn ddyddiol. Mae y Cyngor yn cau y toiledau hyn dros tymor y gaeaf fel y gallant wneud mwy o waith cynnal a chadw arnynt.

Mae y Cyngor yn gwario swm sylweddol I dorri gwair y fynwent gyhoeddus, parc chwarae Llyn y Felin a Brenin Sior V yn rheoliadd bob pythefnos yn ystod Ebrill I Hydref. Hefyd mae gwair amrywiol lwybrau cyhoeddus yn cael ei dorri beth bynnag ddwy waith y flwyddyn. Y gost o wneud y gwaith hwn I gyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon oedd £6,923. Mae y Cyngor hefyd wedi gwario £1,530 ar agor beddi yn y fynwent gyhoeddus.

Yn cyfranu I wahanol fudiadau yn yr ardal yn flynyddol a wedi cyfranu £3,000 I Gyfeillion Ysgol Tan y Castell £2,000 I Ysgol Feithrin Harlech, £500 I CFFI Ardudwy, £500 I CFFI Meirionnydd a £500 I Deulu Castell Mae £2,000 yr un yn flynyddol yn cael ei gyfranu at gadw y Neuadd Goffa ar Hen Lyfrgell oherwydd bod y Cyngor Cymuned yn Ymddiredolwyr ar y ddau sefydliad hyn. Mae y cyfraniadau hyn yn cael eu cynnwys yn precept y Cyngor. Hefyd mae y Cyngor wedi cyfranu

£1,560 i Glwb Badminton leuctid allan o'r gronfa Ymgysylltu a'r Gymuned.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae y Cyngor wedi cyfranu £21,737.61 tuag at y goleuadau nadolig yn yr ardal ag 'roedd canmoliaeth mawr gan pawb bod y dref yn edrych yn nadoligaidd iawn. Cafwyd noson goleuo Harlech llewyrchus iawn ar y 29ain o Dachwedd lle cafwyd gorymdaith drwy'r dref I lawr at y Castell ag 'roedd Sion Corn yn bresennol.

Gwaith y Cyngor a cyfrifoldebau

Rheoli eiddo

2 barc chwarae sef Brenin Sior V a Llyn y Felin

Y Fynwent Gyhoeddus

Y Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Natur Bron y Graig

Llochesi Bws yn yr ardal

Plinth yn Pen y Graig

Yr Hen Ladd-dy

Seddi Cyhoeddus

Rhandiroedd

Y darn tir o flaen yr Eglwys

Hysbysfyrddau

Gweinyddiaeth

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel archwiliwr Mewnol 202/26

Lwfansau – adolygu 6 Cynghorydd wedi hawlio lwfans o £156

Gwefan y Cyngor

Cadw asesiad risg.

Cadw cofnod buddiant